

1872



# 'Newyddion', Tudur Dylan Jones

Cathryn A. Charnell-White

Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd  
cymraeg@aber.ac.uk

**Bingo geiriau:** defnyddiwch y cardiau bingo ar ddiwedd y cyflwyniad hwn i chwarae 'bingo geiriau' ac i chwilio am ystyr y geiriau canlynol:

<b>techneg</b>		<b>fformwlaig</b>		<b>dychan</b>	<b>emosiynol</b>	<b>odl</b>
	<b>trychineb</b>		<b>manylion</b>	<b>rhigymaidd</b>	<b>odli</b>	
<b>agwedd</b>	<b>emosiwn</b>	<b>teledu</b>	<b>ergyd</b>			<b>barddoniaeth</b>
	<b>proffesiynol</b>		<b>adroddwr</b>	<b>sefyllfa</b>	<b>di-emosiwn</b>	
<b>delwedd</b>	<b>digwyddiad</b>		<b>cyfryngau</b>		<b>ffeithiol</b>	<b>newyddiadurwr</b>
<b>personol</b>		<b>newyddion</b>	<b>profiad</b>		<b>dychanol</b>	<b>cyflythreniad</b>

# ‘Newyddion’, Tudur Dylan Jones

Dewi ap Gwyn ar newyddion saith  
Yng nghanol trychineb, yn gwneud fy ngwaith...

Wedi cyrraedd yma ryw ddeuddeg awr  
Ers i'r wlad ddiodde'r daeargryn mawr.

Mae arogl marw ar hyd y lle,  
A ddoe yn llwch hyd strydoedd y dre.

Gallwch glywed plant yn gweiddi'n groch  
Am gymorth cyntaf, am weld y groes goch.

Mae'r byd ar ben yng nghanol y glaw,  
Ond does neb wedi cyrraedd i roi help llaw

I'r un fam ifanc, wedi colli ei gŵr,  
Nac i'r plentyn bach sy'n crefu am ddŵr.

Dacw fabi mewn cadach blêr ar y llawr,  
Mae'n siŵr o farw o fewn yr awr.

Dewi ap Gwyn ar newyddion saith  
Nôl at y stiwdio... wedi gorffen fy ngwaith.

# 'Newyddion' Tudur Dylan Jones

Cofiwch ddefnyddio enghreifftiau o'r gerdd wrth ateb y cwestiynau hyn.

- Beth sy'n digwydd yn y gerdd? Pwy sy'n siarad a beth mae e'n ei ddweud?
- Pa ansoddeiriau sy'n addas i ddisgrifio'r gerdd?
- Sut mae'r bardd yn defnyddio eironi neu ddychan?
  - Beth yw agwedd yr adroddwr/Dewi ap Gwyn?
  - Pa mor effeithiol yw strwythur y gerdd?
  - Beth yw'r patrwm odli a beth yw effaith yr odli?
- Beth yw ergyd y gerdd?

## Beth sy'n digwydd yn y gerdd? Pwy sy'n siarad a beth mae e'n ei ddweud?

- Dewi ap Gwyn, newyddiadurwr dychmygol newyddion saith, yw'r adroddwr.
- Mae'r gerdd ar ffurf bwletin newyddion ar y teledu.
- Mae'r newyddiadurwr yn rhoi manylion daeargryn ac yn disgrifio effeithiau'r daeargryn ar bobl y wlad. Mae'n disgrifio'r **arogl** ('arogl marw'), y **sŵn** ('plant yn gweiddi'n groch/ Am gymorth cyntaf') a'r hyn sydd i'w **weld** ('ddoe yn llwch hyd strydoedd y dre').
- Nid ydym yn gwybod o ba wlad mae Dewi ap Gwyn yn adrodd yn ôl.

## Pa **ansoddeiriau** sy'n addas i ddisgrifio'r gerdd? (Defnyddiwch y sleid 'bingo geiriau' ar ddechrau'r cyflwyniad.)

- Mae disgrifiadau'r newyddiadurwr dychmygol yn **gyffredinol** ac yn **ffeithiol**. Er nad ydym yn gwybod o ba wlad y mae'n adrodd yn ôl, rydym yn gwybod ei fod yno ers 'ryw ddeuddeg awr' ac rydym yn clywed am effeithiau'r daeargryn ar wahanol bobl.
- Mae bwletin Dewi ap Gwyn yn **ddi-emosiwn**. Mae'n rhestru effeithiau'r drychineb ar wahanol bobl, ond 'teipiau' yw'r bobl hyn – plant, mam ifanc, plentyn bach a babi – ac nid 'unigolion'. Mae'r manylion am y teipiau hyn yn **amhersonol** ac nid yn **bersonol**. Yr unig enw a gawn ni yn y gerdd yw enw Dewi ap Gwyn ei hun.
- Yn hyn o beth, yn enwedig wrth agor a chloi'r gerdd, mae'r bwletin newyddion yn **broffesiynol** ac yn **fformwläig** (hynny yw, yn dilyn fformwla).

# Sut mae'r bardd yn defnyddio eironi neu ddychan?

- Beth yw agwedd yr adroddwr/Dewi ap Gwyn?
  - Mae'r newyddiadurwr, Dewi ap Gwyn, yn disgrifio digwyddiad erchyll a dioddefaint, ond eto i gyd mae ei agwedd yn ddi-emosiwn.
- Pa mor effeithiol yw strwythur y gerdd?
  - Mae'r gerdd wedi ei strwythuro fel bwletin newyddion, ond a yw'r agoriad a'r diwedd glo fformwlaig yn tanlinellu agwedd proffesiynol y newyddiadurwr?
  - Beth am effaith y trosiadau celfydd 'A ddoe yn llwch hyd strydoedd y dre' a 'Mae'r byd ar ben yng nghanol y glaw'?
- Beth yw'r patrwm odli a beth yw effaith yr odli?
  - Mae'r bardd yn defnyddio cwpledi sy'n odli. A gredwch fod y cwpledi odledig a rhythm rhigymaidd y cwpledi yn tanlinellu naws fformwlaig bwletin newyddion Dewi ap Gwyn?



## Beth yw ergyd y gerdd?

- Mae hon yn gerdd eironig sy'n dychanu'r newyddiadurwr.
- Ergyd y gerdd yw'r ffaith fod Dewi ap Gwyn yn gwneud ei waith yn effeithiol ac yn broffesiynol – 'Yng nghanol trychineb, yn gwneud fy ngwaith' – ond nid yw'n cydymdeimlo â'r bobl sy'n dioddef. Teipiau dienw ydynt a job o waith yw'r bwletin newyddion: mae'n disgrifio'r sefyllfa yn ffeithiol, ac yn nodi nad oes neb 'wedi cyrraedd i roi help llaw', cyn cloi yn ddi-emosiwn: 'Nôl at y stiwdio ... Wedi gorffen fy ngwaith'. Gall anghofio am y drychineb hon a symud ymlaen at y stori nesaf.
- A yw gweld a chlywed am drychinebau mewn gwledydd pell ar y newyddion a'r cyfryngau cymdeithasol yn ein gwneud ni yn llai sensitif i ddigwyddiadau fel hyn? A yw cynulleidfa'r bwletin newyddion (a darllenwyr y gerdd hefyd) yr un mor ddi-emosiwn â Dewi ap Gwyn?



CymraegAber  
CelticAber



@CymraegAber  
@CelticAber



@cymraegaber

[cymraeg@aber.ac.uk](mailto:cymraeg@aber.ac.uk)

		<b>fformwlaig</b>			<b>emosiynol</b>	<b>odl</b>
	<b>trychineb</b>		<b>manylion</b>	<b>rhigymaidd</b>		
<b>agwedd</b>		<b>teledu</b>				<b>barddoniaeth</b>
	<b>gwyrddroi</b>				<b>diemosiwn</b>	
<b>delwedd</b>			<b>cyfryngau</b>			
<b>personol</b>		<b>newyddion</b>			<b>dychanol</b>	

<b>techneg</b>				<b>dychan</b>	<b>emosiynol</b>	
	<b>trychineb</b>		<b>manylion</b>	<b>rhigymaidd</b>		
	<b>emosiwn</b>					<b>barddoniaeth</b>
				<b>sefyllfa</b>		
<b>delwedd</b>			<b>cyfryngau</b>		<b>ffeithiol</b>	<b>newyddiadurwr</b>
		<b>newyddion</b>	<b>profiad</b>		<b>dychanol</b>	

<b>techneg</b>		<b>fformwläig</b>		<b>dychan</b>	<b>emosiynol</b>	
<b>agwedd</b>	<b>emosiwn</b>	<b>teledu</b>	<b>ergyd</b>			<b>barddoniaeth</b>
				<b>sefyllfa</b>	<b>diemosiwn</b>	
	<b>proffesiynol</b>		<b>cyfryngau</b>			<b>newyddiadurwr</b>
					<b>dychanol</b>	<b>cyflythreniad</b>

<b>techneg</b>				<b>dychan</b>		<b>odl</b>
				<b>rhigymaidd</b>	<b>odli</b>	
<b>agwedd</b>	<b>emosiwn</b>		<b>ergyd</b>			<b>barddoniaeth</b>
				<b>sefyllfa</b>	<b>diemosiwn</b>	
	<b>proffesiynol</b>					<b>newyddiadurwr</b>
<b>personol</b>		<b>newyddion</b>	<b>profiad</b>			